**Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol 2021/22**

Paratoir y datganiad polisi cyflogau hwn ar sail argymhellion Llywodraeth Cymru am dryloywder taliadau staff uwch yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Diffiniadau**

**Uwch Swyddi:** i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol yw'r rhain.

**Gweithwyr ar y cyflog isaf:** i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi Pwynt 3, Gradd 1 ar Raddfa Dâl HERA yw'r rhain.

Mabwysiadwyd y diffiniadau hyn oherwydd eu bod yn adlewyrchiad cyflawn o hyd a lled poblogaeth gweithwyr y Brifysgol.

Ar ben hyn, gan fod y Brifysgol wedi'i hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw, nid oes yr un o'r gweithwyr yn cael cyflog is na'r hyn a ddiffinnir ar gyfer Gradd 3, Pwynt 7, sef £9.90 yr awr ar 31 Gorffennaf 2022.

**Y gymhareb**
Ar sail y diffiniadau hyn, y gymhareb rhwng cyfartaledd cyflogau'r swyddi uwch a'r swyddi cyflog isaf yw **1:6.7**. Mae hyn yn cymharu â chymhareb y llynedd sef **1:6.6.**

**Tystiolaeth o fforddiadwyedd a gwerth am arian:**
Nifer yr uwch swyddi sydd â phecyn taliadau dros £100,000 - mae hyn yn seiliedig ar dâl sylfaenol yn ogystal ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2022:

| | Nifer y swyddi uwch |
|---|---|
| £100,000-£104,999 | 4 |
| £105,000-£109,999 | 1 |
| £110,000-£114,999 | 0 |
| £115,000-£119,999 | 1 |
| £140,000-£144,999 | 1 |
| £235,000-£239,999 | 1 |

**Rheoli Perfformiad**
Agwedd y corff tuag at reoli doniau mewnol: mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad, sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad. Ar ben hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth o rwydweithiau a chynlluniau datblygu arweinyddiaeth a mentora i gefnogi datblygiad a chynnydd gyrfaol.

**Cyflog cysylltiedig â pherfformiad**
Mae gan y Brifysgol gynllun cyflog cysylltiedig â pherfformiad, Gwobr Cyfraniad Unigol (ICA) ar gyfer Graddau 1-9 a Gwobr Cyfraniad Unigol (Cynyddran Symud Ymlaen) ar gyfer Gradd 10.

**Cefnogaeth i staff**
Y prif ddull o ddarparu **cefnogaeth i staff ar gyflogau is:** dechreuodd y Brifysgol dalu'r Gwir Gyflog Byw ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei hachredu'n gyflogwr Gwir Gyflog Byw ym mis Hydref 2018. Mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad, sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad.

**Cyfraddau tâl**
Y **pwynt cyflog uchaf** yw Pwynt 9 ar y raddfa Gradd 10 (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/salary-scales/), sy'n cyfateb i £102,491 (ar 31 Gorffennaf 2022). Mae rhai uwch swyddi'n derbyn cyflogau ar gyfradd yr unigolyn sy'n fwy na hyn; caiff y cyflogau hynny eu pennu'n seiliedig ar ddata meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch. Mae Pwyllgor Taliadau'r Brifysgol yn cael adroddiad blynyddol am bob penodiad a wneir ar y raddfa Gradd 10 neu gyflogau ar raddfa unigolyn.

Y **pwynt cyflog isaf** yw Pwynt 3 ar y Golofn Dâl Sengl (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/salary-scales/), sy'n cyfateb i £17,338 (ar 31 Gorffennaf 2022). Ond, mewn gwirionedd mae'r unigolion ar y pwynt hwn ar y golofn yn derbyn y Gwir Gyflog Byw sydd mewn grym ar y pryd, ac sydd yn awr yn £18,790.20.

**Polisïau diswyddo**
Yn y gorffennol, mae'r Brifysgol wedi gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol sydd bellach ddim ond ar gael i staff sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn rhan o ailstrwythuro. Yn achos staff sy'n gadael oherwydd diswyddo gorfodol mae'r Brifysgol yn gwneud taliad statudol Dileu Swydd yn unol â'r graddfeydd sydd mewn grym ar y pryd (https://www.gov.uk/calculate-your-redundancy-pay).

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag arferion cyfrifo presennol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol llawn ar dâl yn rhan o'i phrosesau adrodd blynyddol.